# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Tirionfa**

**Llandderfel**
**Y Bala**
**LL23 7HG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Tirionfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cartref Gofal Preswyl Tirionfa |
| Lleoedd cofrestredig | 11 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Hydref 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael yn Tirionfa. Mae'r staff yn cefnogi'r bobl gyda'u hanghenion gofal mewn modd amser er mwyn sicrhau eu bod yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn gallu cael ymwelwyr a chymryd rhan mewn gweithgareddau a hobïau.

Mae proses recriwtio ar waith sy'n cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ac maent yn fedrus yn eu rolau. Mae'r rheolwyr wrthi'n ailddatblygu trefniadau datblygu staff mewn perthynas â goruchwylio. Cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo er mwyn i'r staff rannu gwybodaeth berthnasol am lesiant y bobl.

Mae'r cartref wedi'i leoli ar ei dir ei hun ac yn agos at gyfleusterau lleol yn y Bala. Rhoddir sylw i sicrhau bod y cartref yn lân ac yn daclus ac mae mesurau atal heintiau ac iechyd a diogelwch ar waith.

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn garedig, yn gwrtais ac yn ymwybodol o anghenion unigol y bobl y maent yn gofalu amdanynt.
Siaradodd y bobl yn gadarnhaol am y gofal y maent yn ei gael ac roeddent yn teimlo bod eu dymuniadau'n cael eu parchu. Roedd y bobl yn gadarnhaol iawn am y bwyd a'r staff. Gwelsom y staff yn siarad â'r bobl mewn ffordd urddasol a pharchus.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal rheolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn gallu dewis sut a ble y maent am dreulio eu diwrnod. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn parchu eu dewis i aros yn eu hystafelloedd gwely neu'r lolfa fach. Gwnaethant ddweud eu bod yn gallu codi a mynd i'r gwely pan fyddant yn dymuno gwneud hynny a bod amrywiaeth o fwyd yn cael ei gynnig. Nid oedd unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd yn cael eu cynnal ar ddiwrnod yr arolygiad; ond dywedodd y bobl fod eu diddordebau a'r gweithgareddau y maent yn eu ffafrio yn cael eu parchu. Dywedodd un person wrthym “Anything I want I just ask.” Dywedodd y bobl fod y cartref yn:

- *Concise*
- *Brilliant*
- *Homely*
- *Clean*

Siaradodd y perthnasau yn gadarnhaol am y staff, y rheolwyr a'r amgylchedd, gan ddweud bod y staff yn ofalgar ac yn deall anghenion unigol. Dywedodd un perthynas wrthym *“I have no complaints at all, Staff take mum for a walk*.”

Mae'r rheolwyr yn hawdd mynd atynt ac yn darparu cymorth ymarferol, gan weithio ochr yn ochr â'r staff yn ychwanegol at gyflawni eu cyfrifoldebau rheoli. Ceir cyfathrebu da â'r bobl, y staff ac ymwelwyr. Trefnir cyfarfodydd trosglwyddo er mwyn i'r staff rannu gwybodaeth, gofyn cwestiynau a rhoi adborth. Mae gwybodaeth ysgrifenedig gyfredol am y gwasanaeth ar gael. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r bobl rhag niwed neu gamdriniaeth. Mae asesiadau risg ar waith i ddiogelu'r bobl a'r staff.

Mae'r staff yn dilyn proses recriwtio sy'n cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol, ac maent yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni eu rolau yn fedrus.

Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg. Dywedodd y bobl wrthym fod eu dewis iaith yn cael ei pharchu a chlywsom y staff yn siarad Cymraeg a Saesneg â'r bobl. Gwelsom fod papurau newydd Cymraeg a Saesneg yn cael eu darparu.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth lunio eu cynlluniau personol ac mae'r rhain yn cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant y bobl. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn glir ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y staff i gefnogi'r bobl a gofalu amdanynt yn unol â'u hanghenion a nodwyd. Dywedodd perthnasau wrthym nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r cynlluniau personol ond eu bod yn ymwybodol bod cofnodion ar waith. Dengys y nodiadau a'r siartiau dyddiol fod yn bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt pan fydd ei angen arnynt. Mae'r cynlluniau personol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl oherwydd y gofal a roddir a  thrwy atgyfeiriadau amserol at weithwyr iechyd proffesiynol, ac am fod meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n effeithiol. Mae'r bobl yn cael y feddyginiaeth sydd ei hangen arnynt. Caiff cymhwysedd y staff ei gadarnhau cyn y caniateir iddynt roi meddyginiaeth. Ystyrir anghenion deietegol y bobl, ac mae prydau bwyd iach a maethlon yn sicrhau bod y bobl yn cadw'n iach. Gwnaethom gadarnhau hyn wrth arsylwi ar y bobl yn cael cinio. Caiff y fwydlen ei hadolygu a'i diwygio yn dibynnu ar ddewisiadau'r bobl. Gwelsom fod lluniaeth poeth ac oer ar gael.

Mae'r bobl yn cael cymorth da gan staff cyfeillgar, parchus a gofalgar. Gall y bobl ddewis sut maent am dreulio eu diwrnod, ac mae eu dymuniadau unigol yn cael eu parchu. Dywedodd y bobl sy'n cael cymorth wrthym fod y *"Staff yn glen, bwyd yn dda, lle yn lan, dim angen dim byd arall."* (Staff are kind, food is good, place is clean, don’t need anything else).

Cynigir gweithgareddau a chyfleoedd priodol er mwyn i'r bobl ddilyn diddordebau neu hobïau. Mae'r staff yn cynnig gweithgareddau un i un ac yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ystyrlon. Mae'r gwasanaeth yn ailgyflwyno adloniant allanol yn raddol. Dywedodd un person wrthym ei fod yn mwynhau cysur ei ystafell wely ei hun, darllen a mynd allan gyda ffrindiau, a dywedodd un arall wrthym ei fod yn mwynhau eistedd yn yr awyr agored ar dir y cartref.

Caiff diogelwch y bobl ei gynnal yn dda. Mae prosesau ar waith i ddiogelu'r bobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae'r staff yn ymwybodol o ba mor bwysig yw gwneud atgyfeiriadau perthnasol at yr awdurdod lleol pe bai unrhyw bryderon ganddynt am y bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod y staff yn cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu. Mae mesurau rheoli heintiau yn parhau i fod ar waith er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel rhag heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal a chymorth i'r bobl mewn amgylchedd sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r cartref wedi'i leoli mewn adeilad deulawr, a cheir mynediad i'r llawr cyntaf drwy risiau a lifft grisiau. Mae'r ardaloedd wedi'u haddurno i safon dda ac mae'r ystafelloedd unigol yn cynnwys eitemau personol. Mae digon o gymhorthion ar gael i ddiwallu anghenion a aseswyd y bobl. Dywedodd y bobl fod y cartref yn gartrefol.

At ei gilydd, mae'r adeilad mewn cyflwr da.

Mae trefniadau iechyd a diogelwch y cartref yn cael eu rheoli'n dda. Dengys cofnodion fod y cyfleustodau, y cyfarpar a'r nodweddion diogelwch tân yn cael eu harchwilio a'u gwasanaethu'n rheolaidd. Mae'r cartref wedi cael sgôr hylendid bwyd o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae gan bob preswylydd gynllun personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n benodol i'w anghenion cymorth unigol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Busnes teuluol yw Tirionfa gyda dau reolwr sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Un o'r rheolwyr hyn yw'r Unigolyn Cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth.  Mae'r rheolwyr yn gweithio ochr yn ochr â'r staff bob dydd. Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben, sy'n disgrifio'n glir at bwy y mae'r gwasanaeth wedi'i anelu a sut y caiff ei ddarparu. Mae'r bobl yn cael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gwasanaeth a sut i wneud cwyn.

Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwyr yn hawdd mynd atynt a'u bod yn rhoi cymorth personol a phroffesiynol. Yn ychwanegol at gyfarfodydd staff rheolaidd, cynhelir cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am lesiant y bobl.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sydd â digon o staff addas sy'n meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r staff wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Dengys cofnodion fod y gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i staff ddechrau gweithio yn y cartref. Mae gan y darparwr broses dethol a fetio ar waith, sy'n cynnwys cael geirdaon. Ni chynhaliwyd llawer o hyfforddiant wyneb yn wyneb ers pandemig COVID-19 o ganlyniad i gyfyngiadau'r llywodraeth. Cynigir cyfleoedd dysgu amgen i'r staff, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a phenodol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cymorth cyntaf, symud a chodi a chario, a diogelu. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael yr hyfforddiant perthnasol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi cael hyfforddiant ar feddyginiaeth ac wedi llwyddo mewn prawf cymhwysedd rhoi meddyginiaeth. Dywedodd y staff eu bod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae'r rheolwyr wrthi'n adolygu'r broses oruchwylio ffurfiol i gynnwys llesiant, perfformiad a datblygiad y staff. Dengys y rotas staff fod digon o staff ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 14/12/2022